

barcud

# CYNLLUN BUSNES
# 2023-2028

CYMDEITHAS GOFAL
THE CARE SOCIETY

EOM

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys

barcud

# CYNLLUN BUSNES
# **2023-2028**

Llun y clawr: Cwrt William Ainge, Y Trallwng

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn sgil creu Barcud ar 2 o Dachwedd 2020, pan unodd Tai Ceredigion a Chymdeithas Tai Canolbarth Cymru i gyflawni uniad gwirfoddol cyntaf cymdeithas dai draddodiadol a chymdeithas dai trosglwyddiad gwirfoddol ar raddfa fawr yng Nghymru, rydym wedi gallu cyflawni mwy o fuddsoddiad blynyddol yn ein 4200 o gartrefi fforddiadwy, adeiladu 89 yn rhagor o gartrefi newydd carbon isel sy'n effeithlon o ran ynni, a mwy o gyflogaeth gynaliadwy yng nghanolbarth a gorllewin gwledig Cymru.

 throsiant blynyddol sydd wedi cynyddu ac erbyn hyn yn fwy na £28 miliwn, Barcud yw'r gymdeithas dai fwyaf â'i gwreiddiau yng nghymunedau canolbarth Cymru a'r partner naturiol i'r rhai sy'n dymuno darparu tai, cyflogaeth a chyfleoedd datblygu ehangach yn y rhanbarth.

Mae Barcud yn fwy na chymdeithas dai. Mae ganddo dri is-gwmni, a'r rheini i gyd yn darparu gwasanaethau a gweithgareddau sy'n cyflenwi rhai'r rhiant-gwmni. Mae hyn yn galluogi grŵp Barcud i gynnig atebion cynhwysfawr o ran tai, cynnal a chadw a chefnogaeth.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf mae'r gwaith i integreiddio'r ddwy gymdeithas dai'n un i raddau helaeth wedi cael ei gwblhau, a systemau newydd bellach ar waith o ran seilwaith Technoleg Gwybodaeth, tai, cyllid a phobl. Rydym hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad trwyadl o'n Bwrdd a'n llywodraethiant gweithredol, â chymorth partneriaid ymgynghori allanol annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, fe ymddiswyddodd Cadeirydd ein Grŵp, John Jenkins, o'r Bwrdd ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth gwirfoddol ymroddedig fel yr Is-Gadeirydd blaenorol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad. Hoffem ddiolch iddo'n gyhoeddus am ei wasanaeth gwirfoddol hirfaith, a hynny'n cynnwys cyfnod prysur y broses uno a phrofiad anodd y pandemig Covid. Bydd aelodau hirsefydlog eraill o'r Bwrdd yn ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn gyfredol yma, ac mae'r Bwrdd wedi cael ei atgyfnerthu yn ystod y cyfnod hwn o adnewyddu drwy benodiad tri Chyfarwyddwr Bwrdd anweithredol profiadol fel aelodau cyfetholedig o fis Tachwedd 2022, ac un ohonynt yn gweithredu fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Bydd y gwaith i adolygu matrics sgiliau ac amrywiaeth y Bwrdd yn parhau eleni fel rhan o broses barhaus cynllunio olyniaeth y Bwrdd, ac er mwyn cyflawni ein cynllun busnes pum mlynedd newydd. Mae gwaith tebyg i gynllunio olyniaeth wedi cychwyn hefyd ar strategaeth olyniaeth i Dîm Arweinyddol y Grŵp.

Yn ystod 2022/23 gwnaeth y Tîm Arweinyddol a'r Bwrdd, fel rhan o gynllunio busnes, adolygu datganiadau cyrchfan y gymdeithas a gafodd eu creu'n gyntaf adeg uno. Datganiadau cyrchfan yw disgrifiadau hirdymor eglur y gymdeithas o'r sefyllfa y dymunir i Barcud fod ynddi ym mhen pum mlynedd ac maent yn ffurfio rhan o gynllunio strategol y gymdeithas:

## Sylfeini Cadarn

- *Bydd Barcud yn cael ei weld fel y "dewis bartner" o fewn rhanbarth Canolbarth Cymru, o ran tai, cefnogaeth, twf economaidd-gymdeithasol, hyfforddiant a datblygiad ar gyfer cyflogaeth a chadernid Cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys hybu'r Gymraeg.*
- *Bydd Barcud wedi atgyfnerthu ymhellach ei enw da fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig blaengar, dwyieithog yn Nghymru am gyflawni cyfranogiad ystyrlon gan denantiaid ar bob lefel o'i fusnes cymdeithasol.*
- *Bydd Barcud yn y chwartel uchaf o ran Perfformiad Meincnodi Gwerth Am Arian o'i gymharu â'i gymheiriaid. Bydd fframwaith Gwerth Am Arian newydd yn ei le â phwyslais mawr ar werth cymdeithasol.*
- *Bydd Barcud wedi rhoi gweithrediadau ar waith i sicrhau bod llywodraethiant yn gryf yn y gymdeithas ac wedi cwblhau ei gynllun olyniaeth.*

# CRYNODEB GWEITHREDOL parhad

- *Bydd Barcud wedi adolygu ei sefyllfa gyllidol yng ngolwg ei gynlluniau twf diwygiedig a’r amgylchedd allanol newydd ar ôl 2022; a bydd wedi pasio’n llawn o ran rheoleiddio bob blwyddyn.*

## Cartrefi Gwell

- *Bydd Barcud yn rheoli mwy na 5,100 o gartrefi fforddiadwy, a bydd wedi adeiladu a gwerthu dros 50 o gartrefi fforddiadwy/lleiniau ar gyfer cartrefi hunanadeiladu/rhanberchnogaeth/Rhentu i Brynu.*
- *Bydd Barcud yn cael ei gydnabod fel landlord cymdeithasol o ansawdd uchel sy’n cynnal ei eiddo i’r safonau uchaf, ac sydd wedi gweithredu ei Strategaeth Gwres Fforddiadwy’n llwyddiannus ochr yn ochr â’i waith datgarboneiddio a’i waith moderneiddio ar gyfer SATC2.*

## Cymunedau Cryf


- *Bydd contractwyr cynnal a chadw mewnol Barcud yn darparu gwasanaethau gwerth am arian da i’n tenantiaid ac i berchen-feddianwyr bregus.*
- *Is-gwmni Barcud, Y Gymdeithas Gofal, fydd prif ddarparwr llety argyfwng a gwasanaethau cefnogaeth i bobl ddigartref yn holl ranbarth Canolbarth Cymru.*
- *Bydd is-elusen Barcud, Gofal a Thrwsio Powys, yn cael ei chydnabod fel darparwr gwasanaethau cyngor a chymorth sy’n cyflawni’n uchel ac yn effeithiol.*
- *Bydd Canolfan Fusnes Barcud, Creuddyn, yn cael ei gweld fel esiampl arfer dda o ganolfan mentr gymunedol, a hithau’n darparu cyfleusterau swyddfa a chynadledda o ansawdd uchel, yn ogystal â chynnig hyfforddiant a datblygiad gan dîm hyfforddiant a datblygiad ehangach.*
- *Bydd Barcud yn cael ei gydnabod fel “dewis gyflogwr”, gan gynnwys darparu cynlluniau o ansawdd uchel ar gyfer hyfforddiant i mewn i gyflogaeth; mwy o gadernid cymunedol drwy bartneriaethau â darparwyr lleol eraill, a chynorthwyo tenantiaid Barcud a’r Gymdeithas Gofal i symud i mewn i gyflogaeth.*

Mae gwir gyfranogiad gan denantiaid a phreswylwyr yn hanfodol i ffordd Barcud o weithio. Bydd y Bwrdd yn cydweithio’n agos â grŵp annibynnol y tenantiaid (Grŵp Monitro Barcud) i siapio polisi a strategaeth ar y cyd. Mae’r cyfranogiad hwn yn un o’r ffyrdd lawer y mae Barcud wedi’i wreiddio o fewn y cymunedau ar draws canolbarth a gorllewin Cymru. Cymerodd cynrychiolwyr dros y tenantiaid a chynrychiolwyr dros y gweithwyr ran, ynghyd â Chadeiryddion Is-gwmnïau, yn y broses gyfweld ar gyfer Cadeirydd newydd y Grŵp, Alison Thorne, a gafodd ei phenodi gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023, i gymryd yr awenau gan y Cadeirydd dros dros, Dafydd Lewis, ym mis Ebrill 2023, ar ôl proses recriwtio allanol drylwyr a reolwyd gan y cwmni ymgynghori Campbell Tickell.

Bydd Bwrdd Barcud, fel y mae wedi’i adnewyddu, â Chadeirydd newydd a recriwtiwyd yn allanol wedi’i phenodi, yn goruchwylio ac yn monitro cyflawni’r cynlluniau twf a buddsoddiad am y cyfnod nesaf o bum mlynedd, â chraffu rheolaidd ar berfformiad. Edrychwn ymlaen at weithio gyda’n rhanddeiliaid lawer i ddilyn ymlaen o lwyddiant y ddwy flynedd diwethaf.



**Steve Jones**
*Prif Weithredwr y Grŵp*



**Dafydd Lewis**
*Cadeirydd Dros Dro*

# TROSOLWG

## Rhagair

Cafodd Barcud ei gofrestru gan yr AYA ar 2 o Dachwedd 2020. Ffurfiwyd y Gymdeithas gyfunedig drwy drosglwyddo ymrwymiadau o Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru (CTCC) i Tai Ceredigion; ar yr un pryd mabwysiadodd Tai Ceredigion Reolau model newydd a newid ei enw i Barcud.

Cychwynnwyd Tai Ceredigion drwy drosglwyddiad stoc meddiannau tai Cyngor Sir Ceredigion i'r Gymdeithas newydd ei ffurfio yn 2009, a dechreuwyd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru fel Cymdeithas draddodiadol a sefydlwyd gan bobl leol yn Sir Drefaldwyn yn 1975.

Mae Barcud yn perchenogi ac yn rheoli dros 4,200 o gartrefi fforddiadwy, y mae ganddo drosiant blynyddol o fwy na £28 miliwn, ac y mae'n cyflogi mwy na 200 o staff. Mae gan y Gymdeithas hefyd dri is-gwmni: Gofal a Thrwsio ym Mhowys, EOM (cwmi cynnal a chadw adeiladau) a'r Gymdeithas Gofal; mae'r rhain yn cyflogi 100 o staff eto ac yn cyfrannu £3 miliwn yn rhagor at drosiant y Grŵp.

## Strwythur Cyfreithiol

barcud

**Barcud Cyf**
Cymdeithas Budd Cymunedol
**(IP030701R)**

| **Gofal a Thrwsio Powys** | **EOM Cyfyngedig** | **Y Gymdeithas Gofal** |
|---|---|---|
| Cymdeithas Budd Cymunedol | Deddf Gwmnïau | Cwmni Elusennol |
| **(IP29535R)** | **(02899572)** | **(07628816)** |

Gofal a Thrwsio ym Mhowys / Care & Repair in Powys — EOM — CYMDEITHAS GOFAL / THE CARE SOCIETY

## Gwerthoedd

Mae'r ffordd y bydd Barcud yn darparu ei wasanaethau wedi'i hadlewyrchu yn y gwerthoedd a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Hydref 2020. Y rhain yw:

**Ymrwymiad**
Rydym wedi ymrwymo i ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd.

**Balchder**
Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith ac yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn ei wneud yn dda.

**Parch**
Rydym yn parchu'r bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw ac iddyn nhw, ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y maent yn ei wneud.

**Gofal**
Mae ein pobl, ein cymunedau, ein diwylliant, ein gwlad a'r blaned yn bwysig i ni.

**Tîm**
Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr, ein tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid i'n helpu ein gilydd i lwyddo.

# TROSOLWG parhad

## Pwrpas

Gellir crynhoi pwrpas neu nod Barcud yn y pennawd canlynol;

**Sylfeini Cadarn**
**Cartrefi Gwell**
**Cymunedau Cryf**

Mae hyn yn cael ei wireddu drwy gyflawni saith amcan strategol.

### Proses Cynllunio Strategol

**CAM 1**
**Elfennau'r Strategaeth**
Gwerthoedd - Pwrpas - Datganiadau Cyrchfan

**CAM 2**
**Adeiladu**
Amcanion Strategol

**CAM 3**
**Traethu**
Cynllun Gweithredol - DPA - Mentrau - Prosiectau

**CAM 4**
**Rhaeadru**
Cydweithwyr - Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**CAM 5**
**Gweithredu**
Adrodd - Canlyniadau - Deilliannau - Myfyrio

# AMCAN STRATEGOL 1

*Darparu 5,000 o gartrefi cynaliadwy, fforddiadwy, deiliadaeth gymysg, o safon uchel yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2026.*

| Gweithrediad | Deilliant |
|---|---|
| Cyflawni'r Rhaglen Ddatblygu Flynyddol a gytunwyd ar gyfer 2023/24 | O leiaf 130 o gartrefi newydd deiliadaeth gymysg i mewn i reolaeth |
| Cynyddu'r cynnig deiliadaeth sydd ar gael ledled ardaloedd gweithredu'r pedwar Awdurdod Lleol i gyd | Ystod o opsiynau rhanberchnogaeth, Rhentu i Brynu, Cymorth Prynu a hunanadeiladu wedi'u darparu i gwrdd ag anghenion lleol yn y ffordd orau |
| Parhau i resymoli ein banciau tir presennol | Datblygu'r safleoedd yn Llandysilio, Crymych a Chwmann yn llwyddiannus a phrynu safleoedd i gymryd eu lle yn y banc tir mewn ardaloedd lle mae'r angen yn fawr |

# AMCAN STRATEGOL 2

*Bod yn landlord cymunedol ardderchog, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth a gofal.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| Mynd i'r afael â'r Argyfwng Costau Byw gan ddefnyddio Tîm Cynnal a staff ymweld i gefnogi tenantiaid bregus ac i nodi amodau tai gwael | Ymyriad cynnar, atgyweiriadau blaenoriaethol, cael hyd i incwm ychwanegol i Barcud a thenantiaid |
| MEDRA ac EOM i ymateb yn brydlon i geisiadau am waith atgyweirio a chynyddu'r apwyntiadau sydd ar gael | Cynnydd ym modlonrwydd tenantiaid, lefel uchel o falchder i gydweithwyr, cartrefi'n cael eu cynnal i safonau uchel |
| Gweithio gyda phartneriaid Awdurdod Lleol a Phrifysgolion i adfywio canol trefi a darparu gwell cyfleoedd hyfforddiant | Cyflenwad mwy o gartrefi o safon uchel a swyddi, rhywbeth a fydd yn atgyfnerthu cynaliadwyedd cymunedau mewn ardaloedd gweithredu allweddol |
| Gofal a Thrwsio i barhau i gynorthwyo perchen-feddianwyr a thenantiaid oedrannus a bregus ym Mhowys drwy wneud mân addasiadau | Unigolion i fyw'n saff ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain |

# AMCAN STRATEGOL 3

*Bod yn fusnes cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar ei denantiaid, sy'n cynnwys cwsmeriaid ar bob lefel ac sy'n gweithredu'n ddwyieithog.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| Datblygu gwell cynnig cynhwysiant digidol i denantiaid | Atborth ychwanegol gan denantiaid, gwell gwasanaethau i denantiaid a bodlonrwydd tenantiaid |
| Datblygu ac adeiladu ar y cynnig hyfforddiant cyfranogiad tenantiaid sydd yna i denantiaid Barcud i gynnwys ennill sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth | Cymwysterau hyfforddiant achrededig, lleoliadau gwaith, swyddi wedi'u hennill, mwy o gyfranogiad tenantiaid |
| Ymgynghori â thenantiaid i wella manylebau cydrannau a'r ystod o steiliau/lliwiau sydd ar gynnig | Gwell bodlonrwydd tenantiaid â gwaith wedi'i gynllunio a "pherchnogaeth" ar eu cartrefi |

# AMCAN STRATEGOL 4

*Cefnogi gwaith awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn ei holl ffurfiau.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| Datblygu'r perthynas â Chyngor Sir Penfro i archwilio cyfleoedd newydd am ddatblygiad deiliadaeth gymysg ac i'r Gymdeithas Gofal ehangu i mewn i Sir Benfro | Darparu tai newydd deiliadaeth gymysg ac ehangu'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth lety i bobl ddigartref yn Sir Benfro |
| Parhau i adeiladu ar y perthynas cadarnhaol â Chyngor Sir Powys i geisio cyfleoedd i wneud mwy o waith y Gymdeithas Gofal o fewn ardal Powys | Cynyddu niferoedd y bobl a gefnogir a lleihau digartrefedd |
| Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod llif ystyrlon o gynlluniau'n cael eu cefnogi a'u hariannu yn ystod gweddill tymor y Cynllun Busnes hwn | Cynlluniau Barcud wedi'u blaenoriaethu i gael eu cynnwys yn CDRh yr Awdurdodau Lleol a'r gyfran uchaf o Grant Tai Cymdeithasol sydd ar gael wedi'i sicrhau o fewn Powys a Cheredigion |

# AMCAN STRATEGOL 5

*Bod yn gyflogwr delfrydol sy'n cefnogi'r economi leol a chymunedau lleol.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| Sicrhau bod Barcud yn frand adnabyddadwy | Mwy o ddiddordeb mewn swyddi gwag, proffeil da yn yr ardaloedd a wasanaethwn, yn haws ei adnabod i denantiaid a rhanddeiliaid |
| Datblygu'r cynnig hyfforddiant mewnol i gydweithwyr â chyfres o gyfleoedd hyfforddiant | Datblygiad, cymwysterau a llwybrau gyrfa i staff, cadw staff i raddau helaethach |
| Parhau i ddatblygu safle mentr Creuddyn yn amodol ar ariannu ac asesiad anghenion | Unedau busnes ychwanegol / mwy â photensial ar gyfer tai cymdeithasol |

# AMCAN STRATEGOL 6

*Bod yn sefydliad cynaliadwy, carbon isel.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| MEDRA ac EOM i gynyddu nifer y gosodiadau technoleg werdd | Lleihad yng ngwariant tenantiaid, llai o allyriadau carbon, gwella sgiliau cydweithwyr |
| Barcud i gyflawni ar ei dargedau lleihau carbon fel y nodir yn ein Strategaeth Ddatgarboneiddio wedi'i chymeradwyo | Lleihau effaith garbon ein cartrefi, swyddfeydd a gweithrediadau newydd a phresennol i gwrdd â'r lleihad cyffredinol gofynnol mewn carbon (38% o sail 2021) erbyn 2030 |
| Parhau i ddatblygu Strategaeth Gwres Fforddiadwy Barcud drwy gymryd ymagweddiad "Adeiladwaith yn Gyntaf" at ddylunio, adnewyddu a defnyddio systemau ynni gwyrddach | Mae gwelliannau i adeiladwaith a datgarboneiddio ein cartrefi'n mynd ymlaen ar yr un pryd â sicrhau ein bod yn lleihau tlodi tanwydd ac yn cynyddu gallu ein tenantiaid i wresogi eu cartrefi mewn ffordd mor ddarbodus ag y bo modd |

# AMCAN STRATEGOL 7

*Bod yn sefydliad y mae ei drefniadau llywodraethu a'i sefyllfa ariannol yn gadarn.*

| Gweithrediad | Deilliant |
| --- | --- |
| Gweithredu'r Strategaeth Gwerth am Arian newydd â phwyslais ar werth cymdeithasol | Gwell defnydd o gyllidebau, rhoi yn ôl i'r cymunedau a wasanaethwn, defnydd o'r bunt Gymreig |
| Gwella Caffael drwy'r grŵp cyfan | Mwy o bŵer prynu, gwell gwerth am arian |
| Cwblhau'r cynllun gwella llywodraethiant a chytuno a gweithredu'r cynllun olyniaeth | Cymdeithas gadarn sy'n cael ei rheoli'n dda ac sydd wedi'i diogelu at y dyfodol |

# RISG

Mae Barcud wedi mabwysiadu strategaeth rheoli risgiau gan sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion strategol allweddol ar yr un pryd ag adolygu'r heriadau a'r risgiau a all gael eu hwynebu. Gan ddefnyddio matrics risgiau bydd Barcud yn nodi effaith ffactorau a all ddylanwadu ar y tebygolrwydd o risg sylweddol yn cael effaith ar y sefydliad.

Caiff y trefniadau presennol i reoli risgiau eu nodi wedyn ac yna, gan ddibynnu ar yr effaith, gellir defnyddio nifer o ymatebion:

- *Lliniaru – gweithredu neu ddefnyddio strategaethau i leihau'r risgiau drwy fesurau rheolaeth mewnol*
- *Derbyn – penderfynu derbyn a monitro'r risg ar hyn o bryd (gall hyn fod yn angenrheidiol ar gyfer risgiau sy'n deillio o ddigwyddiadau allanol)*
- *Trosglwyddo – penderfynu pasio'r risg i barti arall, er enghraifft telerau contractiol fel na bo'r risg yn cael ei dwyn gan y Gymdeithas neu yswiriant rhag colled ariannol*
- *Osgoi/Ymwrthod – gall y risg fod o'r fath natur fel inni benderfynu rhoi diwedd ar y gweithgaredd neu ei newid yn y fath fodd fel y diddymir y risg*

Mae'r broses o fapio risgiau wedi'i gwreiddio mewn cynllunio busnes a threfniadau gweithredol. Mae'r gofrestr risgiau'n cynnwys y risgiau allweddol a allai gael effaith ar gyflawni'r Amcanion Strategol; a phob un wedi'i chysylltu â Safon Reoleiddio briodol Llywodraeth Cymru.

Fel cymdeithas dai gymhleth, mae Barcud yn cydnabod ei fod yn wynebu risgiau o amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys:

- *Polisi llywodraeth/deddfwriaeth*
- *Amgylchedd economaidd/ariannol*
- *Newid demograffig*
- *Grymoedd y farchnad*
- *Datblygiadau/rhaglenni gwaith mawr*
- *Peryglon naturiol*
- *Clefydau pandemig*
- *Twyll a gwallau*
- *Technoleg Gwybodaeth*

Mae Barcud yn datblygu ei barodrwydd i dderbyn risgiau, drwy ddogfennu Sgôr Risg darged ar gyfer pob un o'r risgiau uchaf unigol gan y Bwrdd Rheoli. Adolygir y 'risgiau uchaf' o'r Gofrestr Risgiau ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Pherfformiad. Lle adolygir un o'r risgiau uchaf a chael nad yw o fewn ein parodrwydd i dderbyn risg, gweithredir i roi rhagor o fesurau rheolaeth yn eu lle, neu i geisio rhagor o sicrwydd bod y mesurau rheolaeth sydd wedi'u nodi yn gweithio'n effeithiol.



# RISG parhad

Y risgiau busnes strategol mwyaf sylweddol yw;

- *Costau mwy oherwydd datgarboneiddio*
- *Methu â chydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Landlordiaid*
- *Methu â chydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch Gweithwyr*
- *Methu ag arwain, cyfarwyddo a gwneud penderfyniadau strategol*
- *Methu â recriwtio a chadw staff allweddol*
- *Costau mwy oherwydd chwyddiant uchel*
- *Effaith botensial yr argyfwng costau byw*
- *Effaith y Ddeddf Rhentu Cartrefi*
- *Methu ag ymateb i achosion potensial o leithder a llwydni*



## Tabl Matrics Risgiau

Bydd y risgiau i gyd yn cael eu sgorio â'r matrics risgiau canlynol. Mae effaith y risg yn bwysicach na'r tebygolrwydd. Felly, caiff y sgôr Effaith ei lluosi â hi ei hun (ei sgwario), a'i lluosi wedyn â'r tebygolrwydd i roi cyfanswm y sgôr risg.

Risg Heb ei Lliniaru > Parodrwydd i Gymryd Risg > Risg Wedi'i Lliniaru

**Matrics Risgiau Barcud**


| Effaith | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Trychinebus | 5 | 25 | 50 | 75 | 100 | 125 |
| Mawr | 4 | 16 | 32 | 48 | 64 | 80 |
| Arwyddocaol | 3 | 9 | 18 | 27 | 36 | 45 |
| Bach | 2 | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| Dim | 1 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Cyfrifo sgôr risg: Effaith$^2$ x Tebygolrwydd | | Annhebygol Iawn | Annhebygol | Posibl | Tebygol | Tebygol Iawn |
| | | Tebygolrwydd | | | | |

# SICRWYDD

Defnyddia Barcud y “Model Tair Llinell” yn fframwaith. Rhydd hyn sicrwydd i’r Bwrdd fod cynnydd yn cael ei wneud tuag at liniaru ar risgiau a chyflawni blaenoriaethau strategol drwy feddu ar ddata cywir, prosesau a mesurau rheolaeth da ac offerynnau adrodd i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau.

Y llinell gyntaf yw’r ffordd y rheolir risgiau o ddydd i ddydd ac y mae’n dod yn uniongyrchol gan y rhai sy’n gyfrifol am gyflawni amcanion ac yn cynnwys polisi a gweithdrefnau. Yr ail yw’r ffordd y bydd y sefydliad yn goruchwylio’r fframwaith mesurau rheolaeth fel y bo’n gweithredu’n effeithiol, gan gynnwys pob elfen o adrodd a monitro. Y drydedd yw sicrwydd gwrthrychol ac annibynnol archwiliad mewnol. Y mae hefyd y sicrwydd uwchlaw’r cwbl gan sefydliadau allanol.



# GWERTH am ARIAN (GaA) a GWERTH CYMDEITHASOL

Y weledigaeth ar gyfer Strategaeth Gwerth am Arian (GaA) Barcud yw sicrhau bod gan Gymdeithas Tai Barcud ymagweddiad strategol at ddarparu a chyflawni Gwerth am Arian wrth gwrdd â'i Hamcanion Strategol.

Mae'r Strategaeth GaA hon yn manylu ar sut y mae Barcud yn mabwysiadu ymagweddiad heriol a chydnerth at ei amcanion GaA. Mae'r amcanion yn eu tro yn cefnogi cyflawni nodau o fewn Cynllun Busnes Corfforaethol Barcud.

## Diffinnir Gwerth am Arian fel:

"Diffinnir y gwerth gorau am arian fel y cyfuniad mwyaf manteisiol o gost, ansawdd a chynaliadwyedd i gwrdd ag anghenion cwsmeriaid."

Yn sail i'r diffiniad o Werth am Arian y mae'r model 4 elfen:

### Darbodaeth

> *A ydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau o'r ansawdd priodol am y pris iawn?*

### Effeithlonrwydd

> *Pa mor dda yr ydym yn trosi mewnbynnau'n allbynnau? ('Gwario'n dda')*

### Effeithiolrwydd

> *Pa mor dda y mae'r allbynnau a gynhyrchir gan ymyriad yn cael yr effaith a fwriedir? ('Gwario'n ddoeth')*

### Tegwch

> *Pa mor deg y mae'r buddion yn cael eu dosbarthu? I ba raddau y cyrhaeddwn ni grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio? ('Gwario'n deg')*

### Fe wreiddiwn ni ddiwylliant o Werth am Arian yn Barcud drwy'r canlynol:

> *Defnyddio ein seilwaith o gyfarfodydd tîm i siarad am Werth am Arian yn rheolaidd â'n holl gydweithwyr*

> *Rhannu arferion gorau a dysgu gwersi ar draws y sefydliad i helpu i yrru gwelliannau*

> *Ymgysylltu â thenantiaid ynghylch gweithgareddau gwariant i sicrhau ein bod yn mwyafu budd ac yn gwneud y pethau sydd o bwys iddynt hwy*

> *Mynd i'r afael yn rhagweithiol ag unrhyw ostyngiadau mewn perfformiad drwy adolygu cynlluniau gweithredu, dangosyddion perfformiad a gwybodaeth meincnodi'n rheolaidd*


> *Craffu ar yr amgylchedd allanol am arfer dda, achrediadau a gwobrwyon a wnaiff wella'r ffordd y darparwn ni wasanaethau neu atgyfnerthu ein henw da*

> *Tracio ein cynilion (cynilion arian parod a rhai nad ydynt yn arian parod)*

## Gwerth Cymdeithasol

Y mae'n golygu edrych y tu hwnt i bris pob contract unigol ac edrych ar y budd torfol i gymuned. Bydd gwerth cymdeithasol yn gofyn y cwestiwn: "Os gwerir £1 ar ddarparu gwasanaethau, a ellir defnyddio'r un £1 i gynhyrchu budd ehangach i'r gymuned hefyd?"

Bydd Barcud yn dilyn y diffiniad hwn yn yr ystyr ehangaf i fwyafu'r effaith a gawn yn ein cymunedau, y gymdeithas ehangach ac ar yr amgylchedd.



# CYFRANOGIAD RHANDDEILIAID

Bu ymgysylltu trylwyr â thenantiaid a phreswylwyr drwy gydol y broses uno ac maent yn dal i gael eu cynnwys drwy'r gweithdai cynllunio busnes.

Naws Barcud yw un sy'n perthyn i sefydliad sy'n rhoi tenantiaid a chwsmeriaid yng nghanol y cwbl. Mynegir pwysigrwydd cyfranogiad tenantiaid yn y Rheolau: '...trefniadau yn eu lle i denantiaid fonitro a chraffu ac fel y bydd ymgynghori â hwy...'. Gall tenantiaid Barcud ymuno â chorff annibynnol i denantiaid, sef Grŵp Monitro Barcud (GMB). Mae'r corff hwn yn cynrychioli tenantiaid a bydd yn cwrdd yn ffurfiol â Thîm Arweinyddol Barcud neu'r rheolwyr gweithredol yn fisol drwy Banel Cyswllt y Tenantiaid.

## Swyddogaeth Grŵp Monitro Barcud (GMB)

Sefydliad annibynnol, gwirfoddol, nid-er-elw yw Grŵp Monitro Barcud (GMB), a chanddo ei Gadeirydd, ei Is-Gadeirydd, ei Ysgrifennydd a'i Drysorydd ei hun. Gall GMB gynnwys hyd at 26 o aelodau. Bydd GMB yn darparu adroddiadau rheolaidd yn newyddlen y tenantiaid ac yng nghyfarfodydd Fforwm Cyswllt y Tenantiaid. Gwahoddir yr holl denantiaid i'r Fforymau, a gallant bleidleisio, bob blwyddyn, a ydynt am i'r Grŵp barhau i'w cynrychioli ai peidio.

Amcanion GMB yw:

- *Darparu strwythur atebol a chynrychioladol*
- *Dylanwadu ar ddyfodol Barcud drwy fynd ati'n weithredol i geisio cyfranogiad ac ymgynghoriad â thenantiaid a'r gymuned leol ehangach*
- *Galluogi tenantiaid i adolygu rheolaeth a chynnal a chadw eiddo Barcud*
- *Hybu gwaith y Grŵp Monitro mewn ffordd bositif o fewn yr ardal ehangach*

## Craffu gan Denantiaid

Yn ogystal â strwythur ffurfiol GMB a Phanel Cyswllt y Tenantiaid, mae gan Barcud ystod eang o fecanweithiau eraill i gael cyfranogiad gan denantiaid a chwsmeriaid a derbyn atborth am wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Grwpiau Tenantiaid/Preswylwyr mewn ystadau/fflatiau/cynlluniau gwarchod*
- *Fforwm Cyswllt y Tenantiaid, a gynhelir bob chwarter ar draws Canolbarth Cymru*
- *Arolygon a Holiaduron*
- *Grwpiau Diddordeb Arbennig, yn ôl yr angen i drafod ac arwain ar wahanol bynciau*
- *Arolygwyr Tenantiaid sy'n asesu'r gwasanaethau tai a ddarparwn*

Eto, bydd Barcud yn dal ati i adolygu sut y gall gynnwys y tenantiaid a chwsmeriaid 'anodd eu cyrraedd' hynny, yn enwedig teuluoedd a phobl iau.

## Rhanddeiliaid Eraill

Byddwn yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyllidwyr, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Heddlu Dyfed Powys, Asiantaethau Trydedd Sector a Chymdeithasau Tai eraill. Mae ein staff yn hanfodol i Barcud allu darparu gwasanaethau i'n tenantiaid a'n rhanddeiliaid a byddwn yn derbyn atborth drwy fforymau gweithwyr, holiaduron a chyfarfodydd tîm.



# LLYWODRAETHIANT RHEOLEIDDIOL

## Y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru

Mae'r Fframwaith Rheoleiddio wedi'i adeiladu ar yr egwyddor o gydreoleiddio. Ystyr cydreoleiddio yw bod y Rheoleiddiwr a chymdeithasau tai'n cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod y sector a chyrff unigol yn cael eu rheoleiddio'n dda.

Mae'r dull hwn o fynd ati'n gofyn cydberthnasau adeiladol rhwng y Rheoleiddiwr a chymdeithasau tai, gan weithio ar sail 'dim byd annisgwyl'.

Mae'r Rheoleiddiwr (Llywodraeth Cymru) yn disgwyl i gymdeithasau wneud y canlynol:

- *bod yn agored ac yn onest ynghylch risgiau, problemau a heriadau a nodant a sut y maent yn cynllunio mynd i'r afael â'r rhain*
- *codi materion perthnasol gyda'r Rheoleiddiwr yn brydlon*
- *gweithio'n adeiladol gyda'r Rheoleiddiwr i ddatrys heriadau*
- *gweithredu'n wirfoddol i ymdrin ag unrhyw bryderon o bwys a nodir drwy reoleiddio.*

Elfennau allweddol y Fframwaith Rheoleiddio yw:

- Safonau Rheoleiddiol
- Hunanarfarnu
- Asesiad Rheoleiddiol
- Dyfarniadau Rheoleiddio
- Goruchwyliaeth a Phwerau Rheoleiddio

O leiaf unwaith bob blwyddyn, bydd Barcud yn cynhyrchu ac yn cyflwyno hunanarfarniad sy'n arfarnu ansawdd llywodraethiant, darpariaeth wasanaethau a hyfywedd ariannol y sefydliad wrth gyflawni ei bwrpas a'i amcanion. Bydd hefyd yn ymdrin â sut mae'r gymdeithas yn cydymffurfio â'r Safonau Rheoleiddiol:


- *Mae gan y sefydliad drefniadau arweinyddiaeth a llywodraethiant strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei bwrpas a'i amcanion*
- *Mae trefniadau cadarn yn eu lle o ran rheoli risg a sicrwydd*
- *Mae gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu i denantiaid*
- *Mae tenantiaid yn cael eu grymuso a'u cefnogi i ddylanwadu ar ddyluniad a darpariaeth gwasanaethau*
- *Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a rhai'r dyfodol*
- *Mae gan y sefydliad ymagweddiad strategol at werth am arian sy'n dylanwadu ar ei holl gynlluniau a gweithgareddau*
- *Mae cynllunio a rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol*
- *Mae asedau a rhwymedigaethau'n cael eu rheoli'n dda*
- *Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel*

Mae dau offeryn a ddefnyddia Barcud yn fframwaith i sicrhau llywodraethiant da: Y Pethau Iawn a Chod Llywodraethiant CCC.

# LLYWODRAETHIANT parhad

## Y Pethau Iawn

Fframwaith lefel uchel yw Y Pethau Iawn y bwriedir iddo fod yn ddangosol yn hytrach nag yn gyfarwyddol, a gellir ei ddefnyddio i ysgogi hunanfyfyrio ac arfarnu, o fewn Cymdeithasau a hefyd rhwng y Rheoleiddiwr a Chymdeithasau. Bydd Barcud yn myfyrio ar y fframwaith ynghyd â'r Cod Llywodraethiant ac yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau strategol â llywodraethiant effeithiol.




## Cod Llywodraethiant CCC

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) wedi cynhyrchu cod llywodraethiant, sydd wedi'i ddylunio fel offeryn i gefnogi gwelliant parhaus. Mae'n cyflwyno egwyddorion ac arferion a argymhellir. Mae i bob egwyddor ddisgrifiad byr, sail resymegol, canlyniadau allweddol ac arferion a argymhellir. Mae Barcud wedi mabwysiadu'r Cod hwn ac mae'n dilyn yr ymagweddiad 'gweithredu ac esbonio' at y Cod ac yn cyhoeddi datganiad yn adroddiad blynyddol y Gymdeithas sy'n esbonio'r gydymffurfiaeth â'r Cod.

**1. Pwrpas y Sefydliad** Mae'r Bwrdd yn glir ynghylch nodau'r sefydliad ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

**2. Arweinyddiaeth** Mae pob sefydliad yn cael ei arwain gan Fwrdd effeithiol sy'n rhoi arweinyddiaeth strategol yn unol â nodau a gwerthoedd y sefydliad.

**3. Uniondeb** Mae'r Bwrdd yn gweithredu ag uniondeb, gan fabwysiadu gwerthoedd a chan greu diwylliant sy'n helpu i gyflawni pwrpasau'r sefydliad. Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o bwysigrwydd hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd, ac mae aelodau'r Bwrdd yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol â hynny.

**4. Gwneud Penderfyniadau, Risg a Rheolaeth** Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod ei brosesau penderfynu'n wybodus, yn drylwyr ac yn amserol a bod systemau effeithiol o ran dirprwyo, rheolaeth ac asesu a rheoli risgiau yn cael eu sefydlu a'u monitro.

**5. Effeithiolrwydd y Bwrdd** Mae'r Bwrdd yn gweithio fel tîm effeithiol, gan ddefnyddio'r cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, cefndiroedd a gwybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus.

**6. Amrywiaeth** Mae ymagweddiad y Bwrdd at amrywiaeth yn cefnogi ei effeithiolrwydd, ei arweinyddiaeth a'i brosesau penderfynu.

**7. Agwedd Agored ac Atebolrwydd** Mae'r Bwrdd yn arwain y sefydliad mewn bod yn dryloyw ac yn atebol. Mae'r sefydliad yn agored yn ei waith, oni bai bod rheswm da iddo beidio â bod felly.

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# ADNODDAU

Mae'r gyllideb a'r rhagolygon ariannol cymeradwy'n adlewyrchu, o ran materion ariannol, ddarparu gwasanaethau Barcud ochr yn ochr â chyflawni'r amcanion strategol. Mae'r gyllideb bum mlynedd wedi'i nodweddu gan wariant cyfalaf ar gynnal Safon Ansawdd Tai Cymru ar y stoc bresennol, gwaith datgarboneiddio a rhaglen ddatblygu uchelgeisiol i fynd yn landlord ar 5,000 o gartrefi erbyn 2026. Ariennir y gwariant cyfalaf hwn gan ein cyfleuster £110m presennol sydd wedi'i ddarparu gan ein Cyllidwyr, ynghyd â grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Daw adnoddau i gyflawni'r Amcanion Strategol ar amryw o ffurfiau, o gyllidebau a hylifedd i gydweithwyr, timau a rhanddeiliaid. Bu 2022/23 yn flwyddyn arbennig o anodd o ran recriwtio yn y rhan fwyaf o sectorau, a hynny'n gosod straen ar y staff presennol a dyddiadau terfyn. Wrth fynd i mewn i'r pum mlynedd nesaf, bydd y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddol yn parhau i ddarparu adnoddau ar gyfer y gymdeithas yn y modd gorau posib, er gwaethaf pwysau o'r amgylchedd allanol yn ymwneud â chwyddiant uchel, cyfraddau llog uchel a phrinder gweithlu.

## Rhagdybiaethau Cyllidebol Allweddol

- *Bod incwm rhent wedi cynyddu yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru â phwyslais ar fforddiadwyedd*
- *Rhagdybir lleoedd gwag ar 2% a drwgddyledion ar 1.5% o'r incwm rhent yn ystod y pum mlynedd*
- *Bod costau gweithredu wedi cael eu hadolygu'n llawn a'u cymryd i ystyriaeth o ran costau*
- *Rhagdybiwyd cyfraddau llog ar gyfleusterau cyfradd amrywiadwy ar 5% ar gyfer 2023/2024 cyn lleihau i 3% ar gyfer blwyddyn 5*
- *Mae Barcud wedi rhagdybio na werthir dim eiddo*
- *Mae'r gyllideb bum mlynedd wedi'i hymgorffori yng nghynllun busnes ariannol 30 mlynedd y Gymdeithas ac wedi cael profion straen o ran newidiadau yn y rhagdybiaethau neu effeithiau risgiau*

| Disgrifiad DPA | Targed 2023/24 |
|---|---|
| Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol | 1.99% |
| Nifer y Dyddiau i Ailosod Eiddo ar Gyfartaledd | 40 |
| Atgyweiriadau - Bodlonrwydd Cwsmeriaid Cyffredinol | 97% |
| Atgyweiriadau Ymatebol - Canran y Tasgau a Gwblhawyd o fewn y Targed - Brys (24 Awr) | 96% |
| Effeithlonrwydd Ynni'r Stoc Tai Cymdeithasol ar Gyfartaledd (Sgôr SAP) | 72 |
| Canran y Cwynion Na Chawsant Ymateb yn Unol â'r Polisi | 0% |
| Canolfannau Cyswllt - Canran y Galwadau a Atebwyd | 98% |
| Absenoldeb Salwch | 3% |
| Canran yr achosion o Damprwydd, Llwydni ac Anwedd a Arolygwyd o fewn 14 Diwrnod | 80% |
| Canran yr achosion o Damprwydd, Llwydni ac Anwedd a Ddatryswyd o fewn 28 Diwrnod i'r Arolygiad | 70% |

# DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR

| | 2023/24 Cyllideb £'000 | 2024/25 Rhagolwg £'000 | 2025/26 Rhagolwg £'000 | 2026/27 Rhagolwg £'000 | 2027/28 Rhagolwg £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trosiant** | | | | | |
| Rhent | 24,802 | 26,852 | 28,514 | 29,480 | 30,339 |
| **Costau Gweithredu** | | | | | |
| Costau Gweithredol | (7,818) | (7,996) | (8,244) | (8,525) | (8,754) |
| Ymatebol, Gwag a Chylchdröol | (7,411) | (7,547) | (7,802) | (8,067) | (8,341) |
| Gwariant Arall | (5,350) | (5,769) | (6,181) | (6,592) | (7,004) |
| Cyfanswm Costau Gweithredu | (20,579) | (21,312) | (22,227) | (23,184) | (24,099) |
| **Gwarged (Diffyg) Gweithredol** | 4,223 | 5,540 | 6,287 | 6,296 | 6,240 |
| Llog sy'n Dderbyniadwy ac Incwm Arall | 3,911 | 3,611 | 3,575 | 3,664 | 3,738 |
| Llog sy'n Daladwy a Chodiannau Cyffelyb | (3,612) | (3,358) | (3,412) | (3,668) | (3,600) |
| **Gwarged / (Diffyg) I a G ar gyfer y Cyfnod** | 4,522 | 5,793 | 6,450 | 6,292 | 6,378 |

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

| | 2023/24 Cyllideb £'000 | 2024/25 Rhagolwg £'000 | 2025/26 Rhagolwg £'000 | 2026/27 Rhagolwg £'000 | 2027/28 Rhagolwg £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | | |
| Meddiannau Tai Llai Dibrisiant | 254,330 | 283,205 | 314,032 | 335,015 | 338,769 |
| Asedau Sefydlog Eraill | 4,081 | 4,334 | 4,598 | 4,874 | 5,163 |
| Buddsoddiadau | 1,781 | 1,781 | 1,781 | 1,781 | 1,781 |
| Cyfanswm | 260,192 | 289,320 | 320,411 | 341,670 | 345,713 |
| **Asedau Cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 22,607 | 12,313 | 6,587 | 6,312 | 6,721 |
| Credydwyr: yn ddyledus o fewn un flwyddyn | (10,375) | (10,375) | (10,375) | (10,375) | (10,375) |
| **Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol** | 272,424 | 291,258 | 316,623 | 337,607 | 342,059 |
| Credydwyr: yn ddyledus ar ôl un flwyddyn | (239,291) | (252,331) | (273,575) | (285,940) | (284,014) |
| **Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau** | 33,133 | 38,927 | 43,048 | 51,667 | 58,045 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn** | 33,133 | 38,927 | 43,048 | 51,667 | 58,045 |

# RHAGOLWG LLIF ARIAN

| | 2023/24<br>Cyllideb<br>£'000 | 2024/25<br>Rhagolwg<br>£'000 | 2025/26<br>Rhagolwg<br>£'000 | 2026/27<br>Rhagolwg<br>£'000 | 2027/28<br>Rhagolwg<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Balans Arian Parod Cychwynnol 31ain Mawrth 2023 | 21,295 | | | | |
| Llif Arian Gweithredu | | | | | |
| Gwarged / (Diffyg) | 8,134 | 9,151 | 9,862 | 9,960 | 9,979 |
| Ychwanegu Dibrisiant Yn Ôl | 5,120 | 5,530 | 5,940 | 6,350 | 6,760 |
| Llai Amorteiddiad | (1,110) | (1,179) | (1,265) | (1,347) | (1,413) |
| Addasiad Llog Cyfalaf | (25) | (26) | (27) | (28) | (29) |
| Cyfanswm | **12,119** | **13,476** | **14,510** | **14,935** | **15,297** |
| Gwariant Cyfalaf | | | | | |
| Rhaglen Gwaith Cyfalaf | (6,809) | (8,443) | (9,306) | (9,668) | (10,044) |
| Costau Datblygu Tai | (22,160) | (22,059) | (22,293) | (11,543) | (5,753) |
| Arall | (378) | (312) | (325) | (338) | (351) |
| Cyfanswm | **(29,347)** | **(30,814)** | **(31,924)** | **(21,549)** | **(16,148)** |
| Incwm a Gwariant Arall | | | | | |
| Grant Tai Cymdeithasol | 11,538 | 18,046 | 9,788 | 4,738 | 4,738 |
| Cyfanswm | **11,538** | **18,046** | **9,788** | **4,738** | **4,738** |
| Costau Cyllido | | | | | |
| Ad-daliadau Cyfalaf | (774) | (1,763) | (519) | (489) | (461) |
| Costau Llog | (3,612) | (3,358) | (3,412) | (3,668) | (3,601) |
| Cyfanswm | **(4,386)** | **(5,121)** | **(3,931)** | **(4,157)** | **(4,062)** |
| Gofyn am Gyllido | **(10,076)** | **(4,413)** | **(11,557)** | **(6,033)** | **(175)** |
| Arian Parod / (Swm wedi'i dynnu i lawr o gyfleuster cylchdroi) | **(10,076)** | **26,806** | **15,249** | **9,216** | **9,041** |
| Cyfleuster Arian Parod Cylchdroi | **41,295** | **31,219** | **26,806** | **15,249** | **9,216** |
| Cyfleuster Cylchdroi / Arian Parod Ar Gael | **31,219** | **26,806** | **15,249** | **9,216** | **9,041** |

# Y GYMDEITHAS GOFAL

Ffocws cynllun busnes y Gymdeithas Gofal yw parhau i ddarparu gwasanaethau hyblyg o ansawdd da ac i gyflawni ein hamcanion elusennol. I ateb heriadau cynnydd yn y galw am wasanaethau ar draws ardal ddaearyddol ehangach, mae cynllunio busnes yn canolbwyntio ar y canlynol:

- *Twf parhaus gwasanaethau sydd eisoes yn bod a pharhau i ddatblygu prosiectau arloesol ledled Ceredigion*
- *Darparu gwasanaethau cefnogaeth a digartrefedd ledled Powys ac o fewn ôl troed grŵp Barcud*
- *Sicrhau bod Y Gymdeithas Gofal yn ariannol wydn*
- *Gwella gwasanaethau drwy lywodraethiant cryf a gweithredu fframwaith sicrwydd ansawdd*
- *Parhau i ymaddasu i newidiadau mewnol ac allanol yn amgylchedd gweithredu'r Gymdeithas Gofal gan gynnwys tendro am Grant Tai Cymdeithasol, newidiadau deddfwriaethol ac ailddosrannu cyllid*
- *Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Gymdeithas Gofal*

Bydd y Gymdeithas Gofal yn parhau i adeiladu ar gysylltiadau strategol sydd wedi'u sefydlu â chyrff ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r drydedd sector ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni'r blaenoriaethau strategol y manylir arnynt drwy'r cynllun busnes hwn i gyd.

CYMDEITHAS GOFAL
THE CARE SOCIETY



# GOFAL A THRWSIO YM MHOWYS

Yn un o dri is-gwmni Barcud, sefydlwyd Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn 1988 i wasanaethu tair sir wreiddiol Powys, sef Brycheiniog, Maesyfed a Threfaldwyn, ac fe ymdoddodd yn un sefydliad yn 2003.

Mae Gofal a Thrwsio ym Mhowys yn un o dair asiantaeth ar ddeg sy'n gweithredu ledled Cymru ac mae'n sefydliad nid-er-elw â nodau elusennol. Maent wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel Cymdeithas Budd Cymunedol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Gofal a Thrwsio ym Mhowys
Care & Repair in Powys





Ein pwrpas yw galluogi pobl hŷn a phobl ag anableddau i fyw bywydau mor annibynnol ag y bo modd mewn cartrefi saff, cynnes a diogel. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y datganiad: Gwella Cartrefi, Newid Bywydau.

Ein hamcanion:

> *Darparu'r ystod ehangaf, y nifer fwyaf a'r ansawdd uchaf o wasanaethau Gofal a Thrwsio ym Mhowys a fforddir â'r adnoddau presennol*

> *Mynd ati'n weithredol i nodi ac archwilio cyfleoedd i ehangu mewn ffordd gynaliadwy ar y gwasanaethau a gynigir*

> *Mwyafu effeithiolrwydd perfformiad yr Asiantaeth*

Cyflawnir hyn drwy ddarparu gwasanaethau cyngor, cefnogaeth ac ymarferol o ansawdd uchel mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol

Mae ein gwerthoedd a'n hamcanion mewn cytgord â rhai ein rhiant-gwmni, Barcud. Mae ein gwaith ni'n cyfannu eu huchelgais hwy i ddarparu cartrefi gwell, dyfodol disgleiriach a chymunedau cryf.

Mae ein prif ffynonellau incwm, boed yn gymorth grant neu ffïoedd o gytundebau gwasanaeth, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.



# EOM

Arbenigwr hirsefydlog a dibynadwy mewn cynnal a chadw a thrwsio adeiladau yw EOM Electrical Contractors Ltd (EOM), sydd wedi'i leoli yn y Drenewydd ac yn cyflogi crefftwyr a phrentisiaid lleol. Wedi'i sefydlu yn 1995, mae EOM heddiw yn cyflogi cyfanswm o 46 o weithwyr proffesiynol yn y tîm. Mae ystod eang o wasanaethau'n cael ei darparu o osodiadau trydanol, gwaith saer coed ac atgyweiriadau i eiddo, gwaith nwy a phlymio i waith cynnal a chadw cyffredinol.

Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae EOM hefyd wedi bod yn ymgymryd â gosodiadau technoleg LoRaWAN, yn ogystal â gosodiadau ynni gwyrdd megis pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltäig i gynhyrchu trydan, ac yn ddiweddarach y mae wedi gosod mannau gwefru ar gyfer ceir trydanol. Mae gan EOM ystod eang o gleientiaid preifat a masnachol yn ogystal â rhai sy'n Awdurdodau Lleol ac yn Gymdeithasau Tai. Barcud yw prif gleient EOM, a rhyw 85% o'i drosiant yn dod gan y gymdeithas dai.

Bydd EOM:

> *Yn ymgymryd â gwaith cysylltiedig ag eiddo Barcud yn y Dwyrain*

> *Yn parhau i weithio gyda Chymdeithasau Tai eraill, Awdurdodau Lleol a chleientiaid preifat*

> *Yn anelu at barhau i fuddsoddi mewn offer newydd a rhai cerbydau newydd yn 2023/24*

> *Yn darparu gwasanaeth o'r math gorau un i'n holl gleientiaid*

> *Yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant, ac yn adolygu'r telerau ac amodau ar gyfer ein cydweithwyr*

> *Yn cyfathrebu'n eglur â'n cydweithwyr i sicrhau bod safbwyntiau pob aelod o'r tîm yn cael gwrandawiad a bod pawb yn teimlo'n rhan o'r tîm*

> *Yn cynnal ein nifer uchel o brentisiaid*

> *Yn adeiladu ar ein strategaethau ar gyfer cyrchu defnyddiau, ac yn adolygu'r ffordd yr ydym yn storio stoc*

> *Yn adolygu ein Cofrestr Risgiau, ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'n Dyledwyr yn fisol*

> *Yn adolygu'n rheolaidd y cynnydd a wneir yn erbyn ein Cynllun Busnes*

> *Yn parhau i adolygu ein strategaeth farchnata fel y gall cleientiaid preifat gael budd o'n gwasanaethau*





# Y TÎM ARWEINYDDOL



**Steve Jones**
*Prif Weithredwr y Grŵp*

*Graddiodd o Brifysgol Sheffield Hallam â gradd BA (Anrhydedd) mewn Astudiaethau Tai.*

*Bron i 40 mlynedd ym maes tai awdurdodau lleol a LCC.*

*Penodwyd yn Brif Weithredwr cyntaf Tai Ceredigion yn 2009.*

*Arweiniodd TC drwy'r trosglwyddiad stoc o Gyngor Sir Ceredigion.*

*Penodwyd yn Brif Weithredwr Dros Dro i Barcud yn 2019.*

*Yn gyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol y Grŵp yng Ngrŵp Tai Pennaf.*

*Yn aelod gwirfoddol o Elusen Digartref ar Ynys Môn.*

*Yn rhugl yn y Gymraeg.*



**Sian Howells**
*Cyfarwyddwr Datblygu a Rheoli Asedau'r Grŵp*

*Yn aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.*

*Gradd mewn Rheoli Ystadau Trefol (BSc) o Brifysgol Morgannwg.*

*30 mlynedd o brofiad ym maes datblygu masnachol a phreswyl ac ym maes rheoli asedau ac ystadau.*

*Ymunodd â Tai Canolbarth Cymru yn 2014.*

*Profiad blaenorol ym maes cymdeithasau tai gyda Grwpiau Tai Circle a Guinness a Chymdeithas Tai Merthyr Tudful yng Nghymru.*



**Llŷr Edwards**
*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Masnachol y Grŵp*

*Gradd mewn Technoleg a Rheolaeth Adeiladu.*

*30 mlynedd o brofiad o'r diwydiant adeiladu.*

*Ymunodd â Tai Ceredigion yn 2009.*

*Cynlluniodd, rheolodd a goruchwyliodd gwblhau'r gwaith SATC yn llwyddiannus i Tai Ceredigion.*

*Yn gyfrifol am Medra, Gofal a Thrwsio ym Mhowys ac EOM.*

*Yn rhugl yn y Gymraeg.*



**Kate Curran**
*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y Grŵp*

*Dros 20 mlynedd o brofiad o Gyllid yn y Sector Gyhoeddus.*

*Yn gyfrifol am Gyllid, TGCh a Llywodraethiant yn Barcud.*

*Yn gyfrifydd cymwysedig gyda'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.*

*Yn ymddiriedolwr i Age Cymru Dyfed.*

*Yn gadeirydd ar Gyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys.*



**Eleri Jenkins**
*Cyfarwyddwr Tai a Chefnogaeth y Grŵp*

*Dros 40 mlynedd o brofiad ym mhob agwedd ar reoli tai.*

*Profiad blaenorol mewn awdurdod lleol a chyda Chymdeithas Tai Cantref.*


*Ymunodd â Tai Ceredigion yn 2009.*

*Yn weithiwr proffesiynol uchel ei pharch ym maes tai yng ngorllewin Cymru ac yn Gymrawd o'r Sefydliad Tai Siartredig.*

*Yn arwain ym maes cynnwys tenantiaid a chyfranogiad tenantiaid.*

*Yn rhugl yn y Gymraeg.*

# BWRDD BARCUD




**Dafydd Lewis**
*Cadeirydd Dros Dro*
*Cyfetholedig*



**Kaye Law-Fox**
*Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol*
*Cyfetholedig*



**Richard Woolley**
*Cyfetholedig*



**Steve Cripps**



**Mererid Boswell**



**John Rees**



**Catherine Shaw**



**Cadwgan Thomas**



**Wyn Jones**



**David Hall**



**Enid Roberts**



**Siobhan Johnson**



**Carina Roberts**

barcud

Prif Swyddfa
Uned 4
Parc Busnes Pont Steffan
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7HH

Swyddfa Ranbarthol
Tŷ Canol
Ffordd Croesawdy
Y Drenewydd
Powys
SY16 1AL

0300 111 3030

post@barcud.cymru